

Cenn@d

MAI 12 2021

YN CYNNWYS Y GOLEUAD A SEREN CYMRU

RHIF 11

Yr Urdd yn annog cefnogaeth i'w chanfed Neges Heddwch ac Ewyllys Da eleni!

Yn ddi-dor ers 1922, mae pobl ifanc Cymru wedi creu neges o heddwch a chyfeillgarwch i'w rhannu â phobl ifanc dros y byd.

Mae'r neges arbennig hon wedi goroesi rhyfeloedd byd a newidiadau sylweddol mewn dulliau cyfathrebu, o'r Côd Morse i'r radio a'r gwasanaeth post hyd at rwydweithiau digidol heddiw. Eleni bydd y ganfed neges yn cael ei rhannu mewn pob math o gyfryngau, a hynny mewn 60 o ieithoedd gwahanol.

Thema'r neges yw Cydraddoldeb i Ferched. Dyma fater sy'n allweddol wrth greu cymdeithasau cynhwysol, agored a ffyniannus, a bydd Neges Heddwch ac Ewyllys Da 2021 yn canolbwyntio ar y mater pwysig hwn, gan amlygu'r anghydraddoldebau sy'n dal i wynebu merched dros y byd hyd heddiw.

Myfyrwyr o Brifysgol Abertawe sydd wedi creu neges 2021 ar ran pobl ifanc Cymru ac fe fydd yn cael ei rhyddhau ar 18 Mai 2021.

Oes gen ti stori?

Os oes gennych chi gopiau o negeseuon o'r gorffennol neu atgofion difyr, fe fyddai'r Urdd wrth eu bodd yn clywed gennych (Cysylltwch ar: heddwch@urdd.org).

Gellir darllen mwy am hanes y neges a chael mynediad i gasgliad o'r rhan fwyaf o'r negeseuon Heddwch ac Ewyllys Da a rannwyd ar ran pobl ifanc Cymru ers 1922 drwy ddilyn y ddolen: [Hanes Urdd Gobaith Cymru](#).

Ond mae rhai negeseuon ar goll, ynghyd ag atgofion a hanesion y rheiny a fu'n rhan o'r neges ac ar deithiau rhyngwladol a dyngarol – ydych chi'n gallu helpu? Tybed a fuoch chi'n rhan o greu'r neges erioed?

A welsoch chi'r neges neu boster yn rhywle o amgylch y byd? Oes gennych chi hanes neu stori ddifyr i'w rhannu â ni? Yna, cysylltwch â'r Urdd yn y cyfeiriad e-bost uchod.

Mae'r diolch i brosiect Cymru Dros Heddwch am eu cefnogaeth wrth gofnodi hanesion ac atgofion y neges.



Y myfyrwyr o Brifysgol Abertawe a fu'n gyfrifol am recordio'r neges eleni (Cawn eu cyfarfod ar raglen *Dechrau Canu, Dechrau Canmol*, nos Sul, 16 Mai)



Urdd

Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd



Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd 2021 –
Cydraddoldeb i Ferched

Hawliau merched yw hawliau dynol
Hawliau dynol yw hawliau merched
Ni allwn achub y byd os nad yw'r byd yn gyfartal

Mae hyn yn fwy na hashtag.

Ail-feddyliwn ein geiriau
Trown y negyddol yn gadarnhaol

Nid pengaled ond pwerus.
Nid hunanbwysig, ond hyderus.
Nid cegog ond awdurdodol
Nid emosynol ond angerddol

Ni yw ieuentid Cymru yn sefyll gyda'n chwirydd ar draws
y byd

Mae coronafeirws wedi stopio'r cloc.
Defnyddiwn y normal newydd i greu dyfodol gwell.
Dyfodol o addysg i bob merch.
Dyfodol o ferched llawn hyder.
Dyfodol cyfartal, o gefn gwlad i'r dinasoedd,
ar draws y byd.

Ni yw myfyrwyr a disgyblion heddiw
Ni yw arloeswyr ac arweinwyr yfory
Chwalwn y nenfwd wydr gyda'n gilydd,
Dilynw'n ein breuddwydion,
Gan ddangos y ffordd i'r genhedlaeth nesaf

Mae hyn yn fwy na hashtag.
Gweithreda er mwyn pob merch.
Fe gyda Hi gyda Nhw gyda Ni.
Does dim terfyn ar ein nerth ni, gyda'n gilydd.



@Urddgobaithcymru



@Urdd

#heddwch2021 / heddwch@urdd.org / www.urdd.cymru

**EGLWYS BRESBYTERAIDD CYMRU
HENADURIAETH MORGANNWG-LLUNDAIN
CYLCH LLUNDAIN**



Cynorthwydd Gweinidogaethol

Gwahoddwn rai â diddordeb mewn hybu gwaith Cristionogol ac Eglwysig i ymddiddori yn y swydd o Gynorthwydd Gweinidogaethol i wasanaethu Eglwysi Presbyteraidd Llundain.

I ddechrau: Medi 2021
Oriau: 35 awr yr wythnos
Cytundeb: 2 flynedd gyda'r 6 mis cyntaf yn gyfnod prawf
Cyflog: Graddfa 23-27 (£23,950 - £26,056) a chyfle i ymuno â Phensiwn EBC
Ychwanegol: Llety ynghlwm â'r swydd a lwfans trafniadaeth o fewn y ddinas

Mae'r swydd hon yn amodol ar ddatgeliad DBS manwl a dau eirda boddhaol.

Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn alluog yn y Gymraeg neu yn ymrwymo i ddysgu'r iaith (llafar ac ysgrifenedig).

Am fanylion pellach, cysylltwch â Hedd Morgan yn Swyddfa Caerdydd ar 02920 627465

E: hedd@ebcpcw.cymru

Dyddiad cau: 4yp ddydd Llun, 4 Mehefin 2021

Tri Chwarter Awr



Mae Dick Eastman a'i lyfr *The Hour that Changes the World* wedi cynorthwyo llawer i ddatblygu eu bywyd defosiynol wrth gynnig patrwm ar gyfer gweddi ac eiriolaeth (wrth rannu awr yn 12 cyfnod 5 munud o weddi, mawl, diolchgarwch ac eiriolaeth).

Yn ystod y misoedd diwethaf, daeth dau gyfle i wneud gwahaniaeth ym mywyd ysgolion a disgyblion Cymru, a hynny wrth ymuno ag eraill mewn, nid awr, ond tri chwarter awr o weddi fel rhan o waith y mudiad **Gweddi Dros Ysgolion** (<https://www.prayforschools.org/>). Wrth i ysgolion agor eu drysau, ac i ddisgyblion, athrawon a staff ddychwelyd wedi'r cyfnod clo, daeth yr angen i wneud pob ysgol yn destun gweddi yn fwyfwy amlwg.

Mae'r tri chwarter awr o weddi yn digwydd dros Zoom, a phobl sydd naill ai'n gysylltiedig â gwaith Cristnogol mewn ysgolion, neu sy'n ymwybodol o'r angen yn ymuno i gydwyddio. Trefnir is-ystafell cyfrwng Cymraeg i'r rhai ohonom sydd am weddio yn y Gymraeg.

Yn ein cyfarfod diwethaf ar 14 Ebrill awgrymwyd testunau gweddi gan brifathro un o ysgolion uwchradd gogledd Cymru, un sy'n ymwybodol iawn o beth yw'r pryderon a'r anawsterau wedi'r cyfnod clo. Cawsom gyfle i weddio dros iechyd meddwl disgyblion ac athrawon, am i'r system asesu ar gyfer TGAU a safon A fod yn deg, dros y cwricwlwm newydd i Gymru, yr etholiadau i'r Senedd a phenodi Gweinidog Addysg newydd. Roedd y trydydd cyfnod yn canolbwyntio ar ailadeiladu ac am egni newydd i'r staff a'r disgyblion.

Cynhelir y tri chwarter awr nesaf o weddi dros ein hysgolion ar 23 Mehefin, 12.30-1.15p.m. Os hoffech gymryd rhan, cliciwch ar y ddolen:

<https://www.eventbrite.co.uk/e/pray-for-schools-wales-prayer-zoom-tickets-150917758077>

Beth am i ni wneud ein hysgol leol, cynradd ac uwchradd, yn destun gweddi?

Catrin Roberts

Atgyfodiad


Didorol oedd clywed y newyddion am y meirw ar daith – 22 ohonynt – yng nghyffiniau Cairo yn ddiweddar. Ar y blaen yr oedd gweddillion Seqenenre Tao ac yn dilyn Rameses 11, y frenhines Hatshepsut, a phedwar ar bymtheg arall o deyrnreolwyr yr 'hen fyd' – mewn trefn yn gaeth i'w beddau cerrig.

Pwrpas y daith oedd symud y 22 *sarcophagus* i lawr y brif ffordd i safle diogel ac amlwg i Amgueddfa Genedlaethol Gwareiddiad yr Aifft yn ardal Fustat, Cairo. Cafodd yr orymdaith arbennig sylw mawr gan y cyfryngau a'r wasg er mwyn hyrwyddo twristiaeth, sydd wedi bod dan warchae oherwydd Coronafeirws a'i drafferthion i bawb yn byd.

Beth sydd uwchlaw hyn i gyd ac sydd yn tra-rhagori ar y sioe uchod?

Beth sydd yn llawer, llawer gwell?

Wel, heb os ac oni bai, atgyfodiad ein Harglwydd Iesu Grist – unwaith ac am byth. Dim gorymdaith ysblennydd o gwbl ond tystiolaeth, ffydd bendant a chred



Gorymdaith y meirw.
(Llun: Gweinyddiaeth Twristiaeth a Hynafiaethau'r Aifft)

fel dur. Mae Crist yn fyw ac yn ein plith, oddi tanom, uwch ein pen, o'n cwmplas a thu mewn i bob un ohonom. Ni all dim byd fyth ein gwahanu ni oddi wrth y Crist Atgyfodedig. Crist ein Pasg. Crist sydd fyw – bendedig, a Haleliwia.

*Geraint Jones
Treffynnon*

Eglwys Bresbyteraidd Cymru
Sasiwn Genhadol Chwiorydd y De

SASIWN RITHIOL 2021

Pnawn dydd Iau, 20 Mai 2021,
am 2 o'r gloch

Llywydd: Y Parch Lona Roberts

Anerchiad gan
yr Athro E. Wyn James
'Pedr Fardd a'i Weledigaeth
Genhadol'

Mrs Sarah Morris
Thema 'Myfi yw y Bugail Da'

Mrs Molly Thomas
Adroddiad Ariannol

Miss Annie Derrick
Croesawu Sasiwn 19 Mai 2022 i
Eglwys y Gopa, Pontarddulais

Croeso cynnes i bawb

I gofrestru, cysylltwch â'r
Parch Lona Roberts:

huw.roberts7@btinternet.com
(029 2076 6283) erbyn 12 Mai


'Rydan ni'n iawn bellach'

Clywir yr ymadrodd uchod o dro i dro – llawenydd naturiol ambell deulu, a'r brechu, dos un a dau, wedi ei gwblhau. Naturiol, ond camarweiniol a pheryglus.

Pwy yw'r 'ni' yn y frawddeg? Ac ym mha ffordd maen nhw'n 'iawn'? Clywir hefyd yr ymadrodd, 'Nid oes neb yn iawn nes bod pawb yn iawn'. Sut mae hi ymhlith teuluoedd De America neu'r Dwyrain draw? Ac nid Covid yn unig sy'n fygythiad.

Prynais lyfr diddorol tua deng mlynedd yn ôl, sef *The Price of Inequality* gan Joseph Stiglitz, prif economegydd Banc y Byd. Cefais rannau ohono tu hwnt i mi – fy ngwendid i, nid bai'r awdur disglair. Ond ar draws y blynyddoedd lled gofiais fod iddo agoriad clir a heriol, ac o'i agor eto heddiw, dyma beth a ddywed Stiglitz: 'There are moments in history when people all over the world seem to rise up, to say that something is wrong, to ask for change.'

Digwyddodd yn 1848, yn 1968 ac, yn nes atom, yn 2011 meddai. A mentro awgrym rydwyf innau fod y cyfnod 2020–21 hefyd yn un ohonynt. Nid chwalfa ym myd economeg a pherthynas ryngwladol ond ym myd moeseg a chrefydd hefyd. Terfysg a chwalfa ym mhobman.



Joseph Stiglitz
([Jérémy Barande / Ecole polytechnique](#)
[Université Paris-Saclay / CC BY-SA 2.0](#))

Os yw erchylltra Covid yn dechrau cilio mewn ambell wlad neu gymuned, fe erys peryglon enbyd eraill, ac anghyfartaledd mewn sawl maes ledled byd.

I'r rhai sy'n dal na ddylid cymysgu crefydd â gwleidyddiaeth y mae hanes crefyddol UDA a'r 'Evangelicals for Trump' yn codi ambell gwestiwn. Pan etholwyd Donald Trump yn Arlywydd, pleidleisiodd dros 70% o Gristnogion gwyn, 'efengylaidd' iddo. Yn yr etholiad diwethaf y nifer oedd dros 60%, a llawer ohonynt yn gwrthod derbyn y canlyniad terfynol. Yn y terfysg gwarthus yn y brifddinas wedyn, gwelwyd ambell boster yn cyhoeddi 'Trump for Jesus'.

Yn nyddiau cynnydd a thwf yr adain dde wleidyddol mae angen troedio'n ofalus ac archwilio'r Testament Newydd yn fanylach, i sicrhau perthynas ddoeth a chyfiawn. Credaf fod neges yn hanes y cyfnod 1848, y sonia Stiglitz a haneswyr Cymru a thu hwnt amdano.

Ym mis Tachwedd 1842, yn *Y Diwygiwr*, fe ddywed David Rees, y golygydd: 'Y mae newyn yn syllu yng ngwynebau miloedd ac y mae amryw wedi marw o eisiau yn ystod y mis diwethaf.'

Cynyddu yr oedd dioddefaint y werin bobl, yn wir, ar draws gwledydd Ewrop. Dyma'r cyfnod y cyhoeddwyd 'Manifesto' Karl Marx ac Engels. Roedd gwrthryfela ar gynydd.

I mi, o ddetholiad helaeth *Caneuon Ffydd*, yr emyn â'r neges wleidyddol gliriaf yw rhif 860: cyfieithiad gwych E Keri Evans o emyn Ebenezer Elliott (1781–1849) o swydd Efrog, a enwyd 'the poet of the people':

When wilt thou save the people?
Oh, God of mercy! when?
Not kings and lords, but nations!
Not thrones and crowns, but men!

Cyhoeddwyd y geiriau yn yr *Edinburgh Review* yn 1848 ac mewn ambell gasgliad o emynau wedyn. Ond gwrthododd llawer eglwys ganu'r anthem, gan honni ei bod yn or-wleidyddol, yn sarhau'r teulu brenhinol – a'r drefn ddwyfol.

Cafwyd profiadau tebyg yng Nghymru mewn ymateb i Walter Griffith (un o deulu'r Blowty yn Llŷn), trefnydd y mudiad i ddileu'r Deddfau Yd. Y rhain oedd yn diogelu pris uchel cynnyrch y tiffeddianwyr cyfoethog ac yn codi pris



David Rees
(Llyfrgell Genedlaethol Cymru o Gasgliad
John Thomas)

bara i'r werin bobl. Roedd newyn ar gerdded yn y wlad.

Ond nid oedd rhai eglwysi, ac yn arbennig y ddau enwad Methodistaidd, yn cefnogi'r ymdrech am gyfiawnder. Pan ddaeth cannoedd o weinidogion ynghyd yng Nghaernarfon ar gais Walter, cadw draw wnaeth y rhain. Gor-wleidyddol eto. Ond yn ôl Walter Griffith, 'gwaith Duw' ydoedd, i geisio tegwch a chyfiawnder.

Canodd R J Derfel mewn brwydr debyg yn ddiweddarach:

Yn erbyn pob gormeswr cryf
O cymer blaid y gwan;
darostwng ben y balch i lawr
a chod y tlawd i'r lan.

Cenir geiriau Derfel heddiw – ond Elliott? 'Na, mae'r dôn yn rhy anodd' a gefais yn ateb i'm cwestiwn un tro.

Os ydym yn byw mewn cyfnod tyngedfennol, fel yr honna Joseph Stiglitz, 'lle mae rhywbeth o'i le, a bod galw am newid', bydd angen i ninnau fel Cristnogion geisio gwir gyfiawnder y Testament Newydd – a dilyn llwybr Crist.

Arthur Meirion Roberts
Pwllheli

Dymunwn yn dda i Arthur Meirion
ar ei ben-blwydd yn 95 oed yr
wythnos hon.



Y Silff Lyfrau



Cyhoeddodd y diwinydd Hans Küng, a fu farw'n ddiweddar, 70 o lyfrau. Mewn nifer ohonynt anelodd at gyrraedd cynulleidfa eang, ac yn ddiau llwyddodd yn hynny. Er enghraifft, astudiwyd ei *On Being a Christian* (1976) gan nifer fawr iawn: coffa da gennyf am y trafodaethau bywiog a ysgogodd mewn ffraternal o weinidogion cylch Aberystwyth ddeugain mlynedd yn ôl.



Yn ddiweddarach canolbwyntiodd ar greu ymwybyddiaeth o'r angen am foesoldeb a fyddai'n gyffredin i grefyddau mawr y byd, ac ynghlwm wrth hynny ymgyrchai dros fudiadau i ddiogelu'r bydysawd. Dyna'n wir oedd ei neges yn y gyfrol *Global Responsibility* (1991), y lluniwyd cyflwyniad iddi gan y Tywysog Philip a fu farw dri diwrnod ar ei ôl. Credai Küng nad gwybodaeth am y ffeithiau ynglŷn â newid hinsawdd fyddai'n debyg o ysgogi pobl i ymgyrchu dros yr achos hwn, ond yn hytrach ymlyniad wrth egwyddorion crefyddol a moesol cyffredin.

Yn 1985, ac yntau'n llywydd y World Wide Fund for Nature, cynigiodd fod y cyfarfod i ddathlu chwarter canrif ei fodolaeth yn digwydd yn Assisi, cartref Sant Ffransis, nawddsant ecoleg, a bod arweinwyr crefyddau mawr y byd yn dod yno i drafod goblygiadau crefyddol yr argyfwng amgylcheddol.

Yn *Global Responsibility* mae Küng yn galw am lunio safonau moesol byd-eang sy'n seiliedig ar grefydd, oherwydd mai dim ond hi, â'i chred mewn Duw, all gyflwyno gofynion moesol ag awdurdod gwahanol i un sy'n ddibynnol ar awdurdod dynol yn unig. Er y gwahaniaethau sy'n bodoli rhwng y gwahanol grefyddau a'i gilydd, pwysleisia'r hyn sy'n gyffredin iddynt: er enghraifft, cydraddoldeb ac urddas aelodau'r teulu dynol; cred fod cariad, cydymdeimlad a grym y gwirionedd yn fwy pwerus na chasineb, gelyniaeth a hunan-les; ymwybyddiaeth fod yn rhaid ochri gyda'r tlawd a'r gorthrymedig

mewn gwrthwynebiad i'r cyfoethog a'r gorthrymwy; a gobaith sylfaenol mai'r da fydd yn drech yn y diwedd.


Pwysleisir hefyd na fydd heddwch byd-eang yn bosibl heb heddwch ymhlith y crefyddau. Ar yr un pryd gelwir am barch tuag at holl greaduriaid y blaned hon, a symud oddi wrth dra-arglwyddiaeth pobl dros natur a'i hecsploio i'w dibenion eu hunain. Mewn gair, mae angen creu trefn fyd-eang sy'n parhau ac yn garedig wrth y drefn naturiol. Yn ogystal, mae'n rhaid wrth ddeialog gonest rhwng y crefyddau, ac yn ei gyfrol mae'n gyson feirniadol o'r grefydd Gristnogol yn ei haml weddau ar hyd y canrifoedd, ac yn arbennig felly yn ei draddodiad ef ei hun.

Yn y gyfrol hon llwyddodd i gwmpasu llawer agwedd ar fywyd a hanes y byd dros y canrifoedd. Er bod rhai o'r sylwadau a wnaeth ddeng mlynedd ar hugain yn ôl ynglŷn â'r gobeithion y byddai perthynas y gwledydd â'i gilydd yn gwella yn ymddangos yn llawer rhy optimistaidd erbyn heddiw, deil y cwestiynau y mae'n eu gofyn yn gyson drwy gydol y gyfrol yn rhai heriol.

Fe'i rhannwyd yn adrannau cymharol fyr gyda phenawdau clir uwch eu pen, ac yn aml cyflwyna safbwynt a'i ddilyn gan un gwrthgyferbyniol iddo. Ond nid yw hynny bob amser yn arwain at ryw fath o gyfaddawd Hegelaidd oherwydd mae'n mynnu pwysleisio'r angen i Gristnogaeth, er enghraifft, llynu wrth ei gwerthoedd ei hun a bod yn hynod feirniadol o'i methiannau wrth wneud hynny. Wrth ymddeol o fod yn Athro yn y brifysgol yn 1995 sefydlodd Küng y Global Ethic Foundation gyda'r bwriad o hybu'r agenda a amlinellwyd yn y gyfrol dan sylw.

Yn 1999 fe'i hanrhydeddwyd gan Brifysgol Cymru â gradd Doethur mewn Diwinyddiaeth ac fe'i derbyniodd yn Abertawe. Yr adeg honno hefyd daeth i Goleg Llambled i draddodi darlith ar destun y gyfrol uchod. Cefais y fraint o'i gyfarfod y pryd hynny, a chofnododd ei enw yn fy nghopi o un o'i gyfrolau mwyaf swmpus, *Does God Exist?* (1980), gyda'r dyddiad – 26 Mawrth 1999 – oddi tano.

John Tudno Williams, Capel Seion



Diwrnod Hyfforddiant 'Visions of Colour'

Annwyl gyfeillion,
Ysgrifennaf atoch i rannu gwybodaeth am ddiwrnod hyfforddi a drefnir mewn partneriaeth rhwng Undeb Bedyddwyr Cymru, Cymanfa Bedyddwyr De Cymru (SWBA) a Choleg y Bedyddwyr, Caerdydd.

Mae'n ymdrin â mater hynod bwysig, sef cyfiawnder hiliol, o dan y pennawd 'Visions of Colour'. Cynlluniwyd y diwrnod ar gyfer

gweinidogion, caplaniaid ac arweinwyr eglwysy'r Bedyddwyr i'w harfogi â'r adnoddau diwinyddol ac ymarferol er mwyn gallu datblygu eglwysy gwrth-hiliol.

Cynhelir yr hyfforddiant ddydd Iau, 20 Mai, 9.30am–2.30pm, ar Zoom.

Ein dymuniad yw estyn gwahoddiad i HOLL weinidogion UBC, a mawr obeithir y byddwch yn gallu ymuno â mi.

Mae'r ddolen Zoom isod:

Pwnc / Topic: South Wales Baptist Association's Zoom Meeting

<https://us02web.zoom.us/j/88312192524?pwd=eLRVaFVGVmRCMTdCRm9HSFFHd1drZz09>

Rhif y Cyfarfod / Meeting ID: 883 1219 2524
Cyfrinair / Passcode: 031925

Gyda phob bendith,

Parch D Marc Owen

Gweinidog Eglwys y Bedyddwyr, Moriah, a Chydylynydd Gweinidogaeth Undeb Bedyddwyr Cymru

O'r byd a'r betws

Croes dros gyfiawnder



Erbyn y gwêl y geiriau hyn olau dydd, bydd yr etholiad i Senedd Cymru wedi ei gynnal, a'r canlyniad yn gyhoeddus. Bydd rhai'n siomedig ac eraill yn chwilio am gartref yng Nghaerdydd. Bu'r etholiad heb ei debyg, a hynny oherwydd cyfyngiadau COVID-19. Diolchwn i'r aelodau a wasanaethodd am y tymor diwethaf, a dymunwn yn dda i'r llywodraeth newydd, beth bynnag ei lliw (neu gyfuniad o liwiau), gan ymddiried iddynt y cyfrifoldebau o benderfynu llawer ar ein rhan.

Ymhlith y pynciau dyrys sydd yn eu disgwyl fydd diwygio gweinyddu ac ariannu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol, yr economi ar ôl COVID-19, adfer targedau addysgol byd addysg a'r pynciau sy'n ymwneud â'r amgylchedd. Pynciau dyfnach fydd ymwneud â hawliau'r Senedd a pherthynas gwledydd Ynsoedd Prydain â'i gilydd. Gellir rhestru llawer mwy, ac mae'n bwysig fod teuluoedd ffydd yn cyfrannu i'r drafodaeth ac yn pwysleisio'r gwerthoedd sy'n sylfaenol i'n hunaniaeth fel cenedl.

Un elfen drist am bob etholiad, bron, yw'r arfer o danlinellu beiau'r gwrthwynebwyr yn hytrach na chynnig cyfeiriad a gwerthoedd. Aeth ymgyrchu yn llwyfan camarwain a chamliwio, negyddu pobl a throi pob polisi yn slogan gwag. Porthi'r wasg a'r cyfryngau sy'n bwysig i gynifer o bobl, ac nid gwranddo ar anghenion, dyheadau ac ofnau cymunedau. Delwedd ddeniadol yw duwies y dydd. Clywsom lu o enghreifftiau lle bydd gwadu'r gwirionedd a byrdwn twyll yn dderbyniol i gynifer o wledyddion, ac wftio onestrwydd. Anthem arall a genir ar lwyfan etholiadau yw hyrwyddo hunan-fantais. Nid beth sydd ei angen ar gymdeithas sy'n cael y flaenoriaeth, ond beth sy'n fanteisiol i'r unigolyn. Aeth myfiaeth yn rhemp. Hawdd yw addo'r byd melysaf, pan nad yr hwn sy'n addo fydd yn gorfod talu.

Adeg etholiad, er yr holl bryderon, dathlwn y fraint o fyw mewn gwlad ddemocrataidd. Gan fod cyfraith yn sicrhau etholiad bob pum mlynedd o leiaf, gwyddom fod modd cadarnhau neu newid y blaid sy'n llywodraethu. Mewn cynifer o wledydd, gall un grŵp neu blaid ddefnyddio pob arf i fynnu teyrngarwch gan sicrhau eu bod yn goruwchlywodraethu am amser hir. Mewn sefyllfa felly, bydd y tlawd a'r di-rym yn gwanhau ac yn colli llais a dylanwad.

Yn ystod wythnos Cymorth Cristnogol, byddwn yn clywed yn gyson am y difreintiedig yn ein byd yn dioddef dan law gormes ac anghyfiawnder. Bydd cefnogi mudiadau dyngarol fel Cymorth



(Wikimedia)

Cristnogol yn un modd sydd gennym i godi llais. Gallwn lobio ein cynrychiolwyr gwleidyddol i herio'r anghyfiawnder, a thristwch sylfaenol oedd deall fod llywodraeth San Steffan wedi torri 'nôl ar gyfraniad Prydain i'r gwledydd sy'n datblygu. Wrth gwrs bod rhannu adnoddau i frwydro COVID-19 yn hanfodol, ond mae angen i'r llywodraethau cryf weithio dros y gwan ym mhob gwlad.

Rhan sylfaenol o bob democratiaeth iach yw medru galw pobl i gyfrif, ac mae llais y gwrthbleidiau mor bwysig â llais y llywodraeth. Mae angen i gyrff cyhoeddus a chrefyddol osgoi bod yn dawedog a di-hid, gan gofio ein bod yn bobl sy'n gweithredu yn y broses o fyw democratiaeth: 'Yn gymaint ag ichwi ei wneud i un o'r lleiaf o'r rhain ... i mi y gwnaethoch'.

Bydd arddel Crist yn golygu gweld yr un a syrthiodd ymysg lladron a'i godi 'nôl i fywyd, nid ei adael yn gorff ar lawr. Mae yna gyrff heddiw yn Myanmar, yn Lesotho, ac yn India, sydd angen cymorth a chefnogaeth. Mynnwn godi llais, mynnwn gyfrannu at y gost, fel rhan o'n democratiaeth ni.

*Denzil John
Caerffili*

Apêl Coronafeirws DEC nawr yn cynnwys India

Yn India, mae ail don o'r coronafeirws yn cael effaith ddinistriol. Mae'r system iechyd yn gwegian, yr ysbytai yn orlawn, ac ocsigen yn brin.

Gallwch chi wneud gwahaniaeth a helpu pobl yn India heddiw drwy roi at Apêl Coronafeirws y Pwyllgor Argyfyngau (Disasters Emergency Committee).

Bydd elusennau DEC yn helpu drwy gefnogi system iechyd India, gan godi ysbytai Covid dros dro, darparu ambiwlansys a chyfarpar meddygol. Byddant yn rhoi mesurau mewn lle i arafu lledaeniad y feirws, gan gynnwys

darparu mygydau, dŵr, sebon a hylif diheintio dwylo, a byddant yn sicrhau bod gan y teuluoedd mwyaf bregus ddigon o fwyd a diod fel nad yw plant yn dioddef o ddiffyg maeth.

Os medrwch chi wneud cyfraniad at yr apêl, ewch i www.dec.org.uk neu gallwch ffonio 0370 60 60 900. Bydd pob cyfraniad yn gwneud gwahaniaeth ac yn cael ei werthfawrogi yn fawr iawn.

Diolch,
*Casia Wiliam - Rheolwr Materion
Cyhoeddus DEC yng Nghymru
07973612966 / cwiliam@dec.org.uk*



ADNABOD

CYMERIADAU'R TESTAMENT NEWYDD

ACTAU'R APOSTOLION

Cyfes o astudiaethau Beiblaidd ar gyfer y cartref neu grŵp gan y Parch. Denzil I. John

Mae testun a chyflwyniad fideo o'r deunydd hwn ar gael ar wefan y Cyngor Ysgolion Sul: www.ysgolsul.com/?page_id=804

Cymeriadau'r Testament Newydd
Yr Eglwys Fore
Gwers 45 – Priscila ac Acwila

Gwedd

Helpa ni, Arglwydd, i ymglywed â'th wahoddiad i fod yn gyhoeddwy y ffydd yn ein bro a'n byd. Amen.

Darllen

Actau 18:18–28

Cyflwyniad

Cyfeirir at Priscila ac Acwila nifer o weithiau, a gelwir hwy'n gyd-weithwyr i Paul (Rhufeiniaid 16:3). Iddew oedd yn hanu o Pontus oedd Acwila, ac roedd yn wneuthurwr pebyll, crefft a ddaeth ag ef a Paul i gydweithio mewn sawl ffordd. Nid yw Acwila yn cael ei enwi ar wahân i'w wraig, ac weithiau bydd hi'n cael ei henwi gyntaf.

Pan adawodd Paul dref Corinth ar ôl 18 mis o wasanaeth yno, teithiodd Priscila ac Acwila gydag ef ar y genhadaeth fawr i Effesus. Prin yw'r ffeithiau amdanynt, ond deallir eu bod wedi byw yn Rhufain ac wedi gorfod gadael y ddinas honno pan orchymynnodd yr Ymherawdwr Claudius i'r Iddewon adael yn 50 OC. Teithiodd y ddau i Gorinth a sefydlu busnes yn cynhyrchu pebyll, gwaith yr oedd Paul yn falch o'i rannu â hwy yn ddiweddarach. Mae'n rhaid bod y ddau wedi derbyn Iesu fel Gwardwr yng nghyfnod cynnar Paul yn y dref, ac iddynt ymserchu yn y ffydd ac ymrwymo i'r eglwys yn llwyr.

Wrth i Paul ysgrifennu ei epistolau, mae'n gyson yn dwyn cyfarchion ar ran rhai sy'n gwmni iddo ar y pryd, ac yn anfon cyfarchion at aelodau o'r eglwys eraill. Mewn oes lle gellir anfon cyfarchion drwy bob math o gyfryngau ar draws y byd, mae perygl i ni anghofio bod Paul yn dibynnu ar gyfeillion i deithio mewn llong ac ar droed ar draws gwledydd yr

Eidal, Groeg a Thwrci yn cario llythyron at gymunedau a phobl pan oedd teithio'n beryglus i bawb.

Dros gyfnod o bymtheng mlynedd, tyfodd yr Eglwys Fore mewn ffydd a dealltwriaeth ac roedd wedi ymledu ar draws y gwledydd. Yn y cyswllt hwn, ni ellir gorbwysleisio ymroddiad a gwaith pobl fel Acwila a Phriscila. Er na chawson nhw addysg ffurfiol, roedden nhw wedi deall hanfod y ffydd Gristnogol, i'r fath raddau, fel bod Apolos, gŵr a nodir fel un a oedd 'yn huawdl ac yn gadarn yn yr Ysgrythurau' (adn 24), wedi derbyn hyfforddiant gan y ddau wneuthurwr pebyll yn y ddysgeidiaeth Gristnogol.

Myfyrdod

Mae'n amhosibl cydnabod yn llwyr ddyled y diwylliant Cristnogol Cymraeg nid yn unig i Griffith Jones am ei weledigaeth gyda'r ysgolion cylchynol, ond i'r bobl anghofiedig a fu'n gweithredu'r cynllun o ddysgu'r werin Gymraeg i ddysgu darllen ac i ddechrau deall sylfeini'r ffydd. Yn yr un modd, bu'r eglwys ymneilltuol yng Nghymru yn ddyledus i'r werin am gynnal dosbarthiadau ysgolion Sul a dosbarthiadau Beiblaidd i gyflwyno'r Ysgrythur i'w cyd-bentrefwyr, ac yn arbennig i'w plant. Am gyfnod sylweddol, dim ond y Beibl a llenyddiaeth Gristnogol oedd ganddynt i'w darllen, ac roedd hyn yn greiddiol i wreiddio'r genedl yn y ffydd. Dyma beth oedd Acwila a Phriscila yn ei wneud: agor eu drysau a chynnig hyfforddiant sylfaenol i gyflwyno'r ddysgeidiaeth Gristnogol.

Nid oes modd gwybod pwy oedd arweinwyr yr eglwys ledled Ewrop yn y canrifoedd cynnar. Bydd hanes 'swyddogol' yr eglwys yn sôn am ddiwinyddion y dydd ac esgobion a gyfrannodd yn gyhoeddus a sylweddol. Ond rhaid bod yna filoedd ar filoedd o bobl, fel y ddau wneuthurwr pebyll, a

agorodd ddrysau eu cartrefi a rhannu eu profiad syml a didwyll o'r bywyd eglwysig.

Os digwydd bod oes y capeli mawr a'r cynulleidfaoedd sylweddol yn dod i ben, a bod gweinidogion hyfforddedig sydd wedi derbyn addysg ddiwinyddol prifysgol yn lleihau, bydd yr eglwys Cristnogol, eu tystiolaeth, eu cenhadaeth a'u gwasanaeth yn parhau ar aelwydydd pobl fel Acwila a Phriscila. Yr her i'n plant a'n hwyryon fydd ystyried a ydynt yn barod i rannu eu ffydd yn y modd hwnnw â'r adnoddau fydd ar gael. Ni fydd Duw yn ei adael ei hun yn ddi-dyst, a'n brait yw estyn i eraill 'win ac olew Calfari'.

Gwedd

Diolch am ymroddiad pob un sy'n gweld ac yn gwneud ei ran i gefnogi cymdeithas yr eglwys yn ei gwaith wrth weld heriau ein dydd. Helpa ni i ddarganfod ein cyfle i'w wasanaethu di a byw'r ffydd yn y byd. Amen.

Trafod ac ymateb

- Mae cyfarchion cyntaf Paul yn ei lythyr at y Rhufeiniaid (16:3–5) yn mynd at y ddau ffrind yma. Sylwch ar yr hyn y dywedir iddynt ei wneud dros Paul, a cheisiwch ddechymgu'r sgwrsio rhyngddynt: wrth iddyn nhw gydweithio ar y pebyll; wrth iddyn nhw deithio o Gorinth i Effesus; ac wrth iddyn nhw wahanu a mentro yn ôl i Rufain.
- Pa mor bwysig yw bod yn ffrindiau yn ogystal â chyd-weithwyr yn yr eglwys?
- Wedi mentro yn ôl i Rufain, meddyliwch amdanynt nhw'n mentro mwy drwy wahodd y Cristnogion i gyfarfod yn eu cartref. Fyddech chi'n fodlon mentro a gwahodd yr eglwys i gyfarfod yn eich cartref chi pe bai raid? Ym mha ffyrdd y byddai cyfarfod yno'n wahanol?

S4C

Nos Sul, 16 Mai, am 7:00yh Dechrau Canu, Dechrau Canmol

Yr wythnos yma, cawn glywed gan griw o fyfyrwyr Prifysgol Abertawe, sydd wedi creu a recordio Neges Heddwch ac Ewyllys Da, Urdd Gobaith Cymru, eleni. A bydd Emily Pemberton yn siarad â Nia am ei thaith i Ghana yn 2015 ar gyfer gwaith ymchwil ar addysg i ferched yn y wlad.

Dyma ddolen i gopi digidol o gylchlythyr y rhaglen ar gyfer mis Mai:

<https://spark.adobe.com/page/hBui5ajRobfvV/>

**Sul, 16 Mai, Caniadaeth y Cysegr**

am 7:30yb a 4:30yp

Bydd chwechawd yn cynnwys Jennifer Walker, Amy Campbell, Elin Llwyd, Betsan Morgan, Phyl Nichols ac Osian Rowlands, yn ogystal â CÔR, yn canu detholiad o emynau a gweithiau cysegredig.

Sul, 16 Mai, am 12:00yp

Bydd oedfa Radio Cymru yng ngofal Cass Meurig, y Bala.

John Davies, Archesgob yr Eglwys yng Nghymru, yn ymddeol wedi pedair blynedd wrth y llyw



Archesgob Davies adeg ei urddo yn 2017 (Wicimedia)

Yn ei neges fideo olaf fel Archesgob yr Eglwys yng Nghymru, fe gymerodd y Gwir Barchedig John Davies y cyfle i ddiolch am y caredigrwydd a'r trugaredd a ddangosodd pobl tuag at ei gilydd yn ystod y pandemig.

Dywedodd yr Archesgob hefyd ei fod yn gobeithio y bydd yr ewyllys da yn parhau wrth i'r cyfyngiadau yn sgil COVID-19 gael eu llacio ac na fydd yn 'diflannu gyda'r pandemig'.

Fe ymddeolodd yr Archesgob ddechrau Mai ar ôl gwasanaethu'r Eglwys yng Nghymru fel eu harchesgob am gwta bedair blynedd ac fel esgob Abertawe ac Aberhonddu am 13 blynedd cyn hynny.

Wrth ddiolch i bobl am eu cefnogaeth iddo ef ei hun, ac i'w heglwys a'u cymunedau, fe ddywedodd, 'Rwy'n meddwl ei bod hi'n arbennig o bwysig imi fynegi fy nioch yng ngoleuni'r hyn sydd wedi digwydd yn y 14 mis diwethaf yma yn ystod pandemig COVID-19 sydd wedi herio cymaint arnom ni i gyd, yn ein bywydau personol, yn ein bywydau cymunedol ac yn nhermau ein bywyd eglwysig.'

Wrth siarad â'r wasg Gristnogol, fe ychwanegodd fod yr Eglwys yng Nghymru yn wynebu her benodol yn gysylltiedig

â'r modd yr oedd hi'n 'datblygu ffordd newydd o gynnig gweinidogaeth'.

'Beth amser yn ôl bellach, fe wnaethon ni ymrwymo i ddatblygu ffordd newydd o gyflawni neu gynnig ein gweinidogaeth, a hynny drwy'r hyn rydym wedi eu galw yn ardaloedd gweinidogaeth. Yn ei hanfod, mae hyn wedi achosi cryn anesmwythyd i rai pobl, oherwydd mae'n golygu gwneud pethau mewn ffordd wahanol iawn – sylweddoli nad oes gan yr un clericwr, yr un unigolyn, y doniau a'r talentau sydd eu hangen er mwyn cyflawni'r alwad i'r weinidogaeth. A sylweddoli hefyd fod gweinidogaeth yn llawer gwell pan fydd timau o bobl, rhai wedi'u hordeinio a llygwyr, yn ymgymryd â hi ... Proses yw hon, yn hytrach na rhywbeth sy'n digwydd ar unwaith, ond rydym ni wedi ymrwymo iddi. Os yw'n well gennym ni rwyfo ein cwch ein hunain yn hytrach na gadael i bobl eraill rwyfo gyda ni, os gallaf ddweud felly, yna fydd hynny ddim yn gweithio. Dyw e ddim yn gweithio ar hyn o bryd.'


Wrth gloi ei neges fideo, fe anogodd yr Archesgob John aelodau eglwysig i gofleidio heriau a chyfleoedd newydd a bod yn barod i newid er mwyn bod yn fwy hygyrch a chroesawgar, a chyda dysgeidiaeth wedi'i hadfywio.

Darlith Goffa Gethin Abraham-Williams

Yn dilyn ei gyfnodau sabothol yn ystod 2020 pan fu'n astudio newid hinsawdd, fe wahoddwyd Swyddog Polisi Cytûn, y Parch Gethin Rhys, i draddodi Darlith Goffa Gethin Abraham-Williams **nos Iau, 20 Mai, am 5–6.30yh**. Cynhelir y ddarlith hon ar-lein.

Meddai Gethin, 'Mae llawer o bobl yn galw sylwadau pobl megis Greta Thunberg a rhai gwyddonwyr, llenorion ac ymgyrchwyr am newid hinsawdd yn "apocalytaidd" – ystyrier yr enw Gwrthryfel Difodiant, er enghraifft. Defnyddir yr un gair i gyfeirio at rannau o'r Beibl, megis Llyfr y Datguddiad. Byddaf yn ystyried beth yw'r berthynas rhwng y llenyddiaeth apocalytaidd Feiblaidd a'r apocalyptic seciwlar newydd sy'n codi. Ai arwydd o anobaith yw arddel y syniad o apocalyps, ynteu arwydd o obaith – fel y bwriadai'r awduron Beiblaidd? Dyna fydd maes y ddarlith.'

Teitl y ddarlith fydd 'Diwedd y Byd? Apocalyptic Cristnogol ac ymatebion i newid hinsawdd'. Fe'i traddodir yn ddwyieithog, gyda chyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg, a bydd cyfle i holi cwestiynau ar y diwedd. [Gellir cadw lle ar-lein yma](#). (Mae'r ddolen ar gael hefyd ar ddiwedd Bwletin Polisi Pasg Cytûn ar eu gwefan: www.cytun.co.uk.)



Y Parch Gethin Rhys, fydd yn traddodi Darlith Goffa Gethin Abraham-Williams eleni

Dyma gyfarfod hyfryd iawn

Meddiannu'r Mab, cael ein meddiannu gan fywyd

Emyn 307: 'Pêr fydd dy gofio'

Gweddi

Arglwydd Dduw, drwy'r Ysbryd Glân, mewn oesoedd a fu tystiodd gwagedd a gwyr i'r newyddion da am atgyfodiad Iesu Grist oddi wrth y meirw. Chwyldrowyd eu bywydau wrth iddynt ddod wyneb yn wyneb â thi. Trawsnewidiwyd cymunedau wrth iddynt rannu'r newyddion da. Dysga ninnau heddiw sut mae bod yn ffyddlon i'r gwaredwr a'r olyniaeth rydyn ni wedi'i derbyn, i fod yr un mor dryloyw yn ein ffydd yn yr Arglwydd Iesu Grist, ac yn rhannu'r un dyfnder o gariad tuag ato a thuag eraill.

Cyflwyniad

Mewn clip fideo a welais yn ddiweddar dangosir ymateb merch fach fyddar i lais ei mam pan glywodd seiniau a lleisiau am y tro cyntaf erioed. Wrth iddi adnabod y llais mae'n symud, o ddychryn a syfrdandod, i ddagrau a gwên. Beth wnaeth fy nharo wrth edrych ar y recordiad oedd na allai'r fam beidio â dweud wrth y fechan gymaint yr oedd yn ei charu. Ac yn ail, gymaint oedd y pleser a ddaeth i'r fechan wrth iddi glywed ac adnabod y llais. Yn drydydd, ni allwn beidio â synnu cymaint o wahaniaeth a wnaed i fywyd yr un fach. Drwy'r dechnoleg meddiannodd rodd, a meddiannodd y rhodd ei bywyd hi!

Mae credu'r dystiolaeth ac adnabod Iesu Grist, mewn modd tebyg, yn newid popeth i ninnau hefyd.

Darlleniad: 1 Ioan 5:9-13

Myfyrdod

Mae dyfnder anfesurrol i'r addewidion a ddaeth i'n rhan wrth i ni feddiannu cynnwys ein cred, sef gwrthrych ein ffydd – Iesu Grist.

Ond beth sy'n digwydd i berson sy'n ifanc yn ei ffydd, sy'n newydd i'r Ysgrhythurau, sy'n clywed rhai, hyd yn oed rhai athrawon, sy'n honni bod ganddynt wybodaeth neilltuol, sy'n bwrw anfri ar eu gwaredwr ac yn dirmygu'r addewidion?

Fe wyddom fod gwahanol garfanau, yn gynnwys iawn yn hanes yr Eglwys Fore a

than ddyllanwad athroniaeth Roegaidd, wedi gwadu y gallai Duw ddod yn y 'cnawd'. Sut, meddent, y medrai Duw sy'n fod 'ysbrydol' da ddod i gyswllt â'r daearol, y materol, y cnawdol, a oedd, yn ôl eu cred, yn ei hanfod yn ddrwg? Neu, yn ôl cred a gafodd ei hybu gan ŵr o'r enw Cerinthus (oedd yn cydoesi ag Ioan), ni chrëwyd y byd gan Dduw. Ni chafodd Iesu ei eni o'r forwyn Mair. Daeth yr Ysbryd ar Iesu adeg ei fedydd cyn ymadael ag ef cyn ei groeshoeliad. Dyn unig, Iesu, a fu farw, nid gwaredwr o Grist. Wedi'r cyfan, sut allai Duw gyffwrdd â'r daearol, y cnawdol, y marwol, na dioddef chwaith?

Cyfeiriodd Ioan ei gyd-aelodau at y canlynol:

Rhyfeddod y Person

Mae Ioan yn atgoffa'i ddarllenwyr o'r hyn a ddywedodd yn ei Efengyl am 'ddŵr a gwaed' yn llifo o ystlys Iesu adeg ei groeshoeliad (Ioan 19:34). Roedd Ioan yn 'dyst' geirwir i'r dioddefaint 'a gallwch chwithau felly gredu,' meddai. Roedd Ioan am i ni wybod, er mor rhyfeddol neu dramgwyddus oedd hyn i'n doethineb dynol, fod y Gair tragwyddol wedi dod yn gnawd, yn berson o gig a gwaed go iawn.

Pwysleisiodd Ioan mai Iesu Grist a aeth **drwy'r** dŵr a'r gwaed ydyw. Nid dod yn Fab Duw, yn Grist, adeg ei fedydd a wnaeth. Crist ei hun aeth drwy dŵr y bedydd. Uniaethodd yr hollalluog a'n gwendid, ein meidroldeb, a'n pechod. Ac yn ei ddwyfol-ddynol aberth aeth Crist drwy'r 'gwaed' hefyd. Drwy ei fedydd, ei groeshoeliad a'i atgyfodiad cyflawnwyd y cyfan oedd ei angen arnom i'n gwaredu.

Gwirionedd y dystiolaeth

Osyw'r dŵr a'r gwaed yn tystio i ryfeddod y Gwaredwr, mae Ioan am ein hatgoffa bod 'tyst' arall dibynadwy hefyd, sef yr Ysbryd Glân (adn 6). Mae'r dystiolaeth sydd gennym yn ddibynadwy am fod y tyst yn eirwir. Ac am fod y tyst yn eirwir gallwn bwysu ar wirionedd yr hyn mae'n tystio iddo. Dywed Ioan wrthym mai'r 'Ysbryd yw'r tyst' i realiti hyn.

Wrth ddatgan mai'r 'Ysbryd yw'r gwirionedd' mae Ioan unwaith eto'n ein cyfeirio'n ôl at yr hyn ddywedodd Iesu am waith yr Ysbryd Glân a'i ddisgrifiad ohono fel 'Ysbryd y gwirionedd' (Ioan

14:15,16,17). Byddai'r Ysbryd hwnnw'n tystio drwy 'ddysgu' a 'dwyn ar gof' i'r eglwys wirionedd rhyfeddol Iesu ei hun (14:26). Yn wir, byddai'r Ysbryd yn rhodd gan Iesu Grist ei hun oddi wrth y Tad. Nodweddd arbennig gwaith yr Ysbryd Glân yw ei fod yn 'tystiolaethu amdanaf fi' (15:26). Arwydd o waith yr Ysbryd yw ei allu i'n hargyhoeddi o gyfiawnder, o bechod ac o farn (Ioan 16:8-11). Byddai'r Ysbryd yn ein tywys i'r 'holl wirionedd', yn bywhau geiriau Iesu ac yn ei ogoneddu (16:13-15).

Credu ac anghredu

Felly mae'r dŵr, y gwaed a'r Ysbryd yn gytûn, yn dystion dibynadwy a geirwir ac yn cadarnhau i'r credadun gwannaf mai Iesu Grist, Mab Duw, yw sail eu gobaiath a'u ffydd (adn 8-9).

Unwaith eto, mae Ioan am ein hatgoffa o'i eiriau yn Ioan 3:16-20. Yn yr adnodau hynny mae Ioan yn tanlinellu breintiau credu, ynghyd â cholled peidio â chredu'r tystion geirwir. O'u derbyn down i gredu yn y Mab, ac wrth gredu yn y Mab daw bywyd yr oesau, bywyd yr oes sydd i ddod, cyflawnder y deyrnas a ddaw yn niwedd yr amseroedd, yn eiddo i ni heddiw. Wedi'r cyfan, mae Crist, Arglwydd a bywyd yr oes i ddod, wedi camu ar lwyfan hanes. Canlyniadau trist sy'n dilyn peidio â derbyn y dystiolaeth.

Mae Ioan am i ninnau, mewn modd tebyg, adnabod y fraint o 'gredu' a meddiannu'r Mab – Iesu Grist. Wrth gredu dystiolaeth Duw amdano, cawn ein llenwi â bywyd tragwyddol. Cawsom ein caru yn Iesu Grist a dod yn blant i Dduw. Cawsom adnabod y cariad hwnnw a roddodd ei hun drosom. Mae credu'r cariad sydd yng nghalon Duw tuag atom yn ein gwahodd ato, yn ein denu ato, yn peri i ni chwilio amdano, yn caniatáu i ni ei ddarganfod, yn gariad sy'n gwbl anhaeddiannol. Y cariad hwnnw sy'n ein hennill, yn ein gorchfygu, yn ein cadw a'n cynnal, yn gorchfygu ein hanghrediniaeth, neu hyd yn oed gasineb a gwrthwynebiad a chaethiwed y byd.

Myfyrdod a gweddi dawel

Emyn 531: 'Caned nef a daear lawr'

RWJ

Cyhoeddir Cenn@d ar y cyd gan Eglwys Bresbyteriaidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr Cenn@d yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteriaidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com

www.cennad.cymru | [f CennadCymru](https://www.facebook.com/CennadCymru) | [t @CennadCymru](https://twitter.com/CennadCymru)